

CYNGOR GWYNEDD GWYNEDD COUNCIL

**Cofnodion drafft o gyfarfod rhif 18 o Grŵp Cyswllt Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)
Pen Llŷn a'r Sarnau a gynhaliwyd ar yr 2il o Fehefin 2010 (yn cychwyn am 7pm) ym
Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.**

Yn bresennol:

Y Cyng. Caerwyn Roberts	Awdurdod Lleol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Cadeirydd)
Dafydd Jones	Swyddog ACA PLAS – dros gyfnod mamolaeth
Virginia Prieto	- WAG Fisheries
Dafydd Roberts	AP - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Y Cyng. Ray Quant	Awdurdod Lleol – Ceredigion
Rowland Sharp	Arall
Nia Jones	Siaradwraig – <i>Theatr y Gwyllt</i>
Paul Kay	Siaradwr - Awdur

(PLAS – Pen Llŷn a'r Sarnau)

(AP - Awdurdod Perthnasol)

Cyflwyniad

Croesawodd Caerwyn Roberts bawb i'r cyfarfod, gan longyfarch Alison Hargreave ar ran y grwp ar enedigaeth ei merch.

1. Ymddiheuriadau

Bill Miller-Jones	Arall – Plymiwr a pherchennog cwch
Mike Bowyer	Arall – Archaeoleg
Lucy Kay	AP - Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)
Liz Allen	AP - Cyngor Sir Ceredigion (CSC)
Rhys Jones	AP - Cyngor Gwynedd
Bill Bracewell	Hamdden – Partneriaeth Aberdyfi
Lee Oliver	Arall - Cadwch Gymru'n Daclus (CGD)
Gruff Jones	Arall - Cadwch Gymru'n Daclus (CGD)
Jilly Whipp	Arall
Bob Lowe	Hamdden – Hwyllo
David Roberts	Awdurdod Lleol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mike Thrussell	Pysgota hamdden

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

2.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3. Materion yn codi

3.1 Dim

4 Diweddariad gan y Swyddog ACA - Gwaith a gwblhawyd rhwng Medi 2009 - Mai 2010

4.1 Digwyddiadau -

- Arddangosfa ACA PLAS yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli. Wedi gobeithio gwneud o gwmpas llyfrgelloedd ond dim digon o le felly wedi gyrru taflenni, posteri a

gybodaeth gyffredinnol am ACA PLAS allan i bob Llyfrgell yng Ngwynedd a pob Canolfan Wybodaeth Twristiaid.

- Stondin ACA PLAS yn Sioe Nefyn
- Sioe Bwyd Tir a Mor, Pwllheli
- Gweithio efo Ysgolion Tudweiliog, Brynaerau a Gwaengynfi ar y Foryd, Ysgolion eraill yn dod yn y misoedd nesaf.
- Diwrnod ar y Traeth yn Morfa Nefyn efo Ysgol Pentre Uchaf, gobeithio gwneud mwy o ddydïau fel hyn yn y dyfodol agos. Dyffryn Ardudwy
- Egg Case Hunt, Dinas Dinlle – Dros 40. Eitem ar Wedi 7
- Cool Seas Roadshow
 - 1st – 12th March 2010
 - 16 ysgol trwy Wynedd. Ysgolion gwahannol i llynedd. Dim lle i bawb a rhai eisiau y sioe eto felly wedi trefnu ei body n dod nol y flwyddyn nesaf.
 - 1349 disgybl
 - Ysgolion eisiau ymweliadau pellach wan ar ol hanner tymor.

○

4.2 **Prosiect Sbwriel wedi sefydlu - Troi Llanw / Turning Tide**

- Grant Trefi Taclus o £2,745.40
 - Prynu Litter Picks, Handy Hoops, Menyg, Cyhoeddusrwydd, costau gwirfoddolwyr.
 - Dafydd Jones, Lee Oliver, Jacki Clarke and Pete Wilkinson ar y grwp Llywio
 - 3 prif ddigwyddiad wedi eu clustnodi: 27/3/10 – 3/4/10, 26/6/10 – 3/7/10, a 18-19/9/10
 - Digwyddiadau cyntaf wedi eu cynnal yn Borth, Abersoch a Porth Neigwl, gyda dros 40 o wirfoddolwyr yn casglu dros 50 o fagiau o sbwriel.
 - Ebrill 24^{ain} – 50+ o wirfoddolwyr yn cymeryd rhan mewn diwrnod glanhau traeth ym Mhorth Neigwl
 - Digwyddiadau wedi eu hysbysebu ar BBC Radio Cymru, Herald, Cambrian News
 - Digwyddiadau Mehefin / Gorffennaf yn cael eu trefnu ar hyn o bryd, ar wahan i lanhau traethau mae'r gweithgareddau yn cynnwys:
 - Taith Gerdded Natur
 - Taith Canw / Kayak / Hwyllo, survey bywyd Gwylt
 - Gweithio efo Ysgolion
 - Prosiectau celf
 - Gweithio efo NARC – Clirio Tanddwr
- Broadwater, Tywyn. Cafwyd cyfarfod i drafod y broblem o bobol yn camddefnyddio y Coastal Lagoon a'r warchodfa natur. Un rhywogaeth wedi diflannu yn barod yn ol pob golwg. Byddaf yn cymeryd rhan yn y drafodaeth a unrhyw brosiect/gynllun y byddwn yn sefydlu yno. Y cam nesaf fydd cysylltu gyda'r heddlu a'r Cyngor Tref. Mwy o wybodaeth i ddod yn fuan.

4.3 **Arall**

- Wedi ail ddylunio gwefan ACA PLAS ar dudalenau www.gwynedd.gov.uk
- Cynnal a chadw / diweddarau www.penllynarsarnau.co.uk
- Trefnu ail-ddylunio a phrintio posteri ACA PLAS
- Trefnu dylunio a phrynnu 2 popup newydd ACA PLAS

- Fishing for Litter – arian ar gael gan y Crown Estate a posibilrwydd o gydweithio efo prosiect tebyg yn Sir Benfro. Problem ar hyn o bryd yw cael y pysgotwyr a'r grwpiau pysgota i ddangos diddordeb. Wedi ceisio yn Pen Llyn gan fod gan y Cyngor yr adnoddau mewn lle i dreialu y prosiect yn barod. Ond efallai bydd rhaid symud i lawr ymhellach i'r de lle mae pysgotwyr Ceredigion wedi dangos mwy o frwdfrydedd. (RS)
- Erthygl wedi ei chyhoeddi yng nghylchlythyr gerddi botaneg Treborth.
- Delio a ymholiadau
- Cyfarfodydd a fynychwyd –
 - Cyfarfod Marine Ecosystems Group
 - Cyfarfod Green Communities
 - Cyfarfod traws ffin Ceredigion / Gwynedd
 - Cyfarfod Grwp Llywio Natur Gwynedd
 - GEMS
 - Theatr y Gwyllt (cyfres)
 - Dehongli Llyn
 - Prosiect Tirlun Llyn
- Cyrsiau a fynychwyd –
 - Seminar yn Milford Haven
 - Gweithdy Morol 2 ddiwrnod CCW– CAST Bangor
 - Cymorth Cyntaf 3 diwrnod. MEDITEC
- Gweithgareddau yn dod i fynu –
 - Ymweld a sioeau Meirionydd (Harlech) a Gogledd Cymru (Caernarfon)
 - Rockpool ramble
 - Digwyddiadau amrywiol efo Theatr y Gwyllt yn Aberdaron a'r cylch
 - Cyflwyniad SAC i Rotary Club Caernarfon
 - Gweithio efo Cynllun Chwarae Cyngor Gwynedd Dros wyliau yr haf.
 - Cylchlythyr allan erbyn diwedd y Mis
 - Cyflwyniad i Staff Morwrol ar ddiwedd yr haf

4.5 Pwyntiau yn codi o'r adroddiad

- Broadwater, perygl o symud y broblem o un lle i'r llall wrth ddim ond rhwystro mynediad i'r safle. Posibilrwydd o greu man arall i'r beicwyr ond problemau gyda insiwrans, cynnal a chadw, a chyfrifoldeb am y safle. Soniodd RS am y sefyllfa ar fynydd y Berwyn lle defnyddiodd yr heddlu hofrenydd er mwyn taclo y broblem. Roedd taclo y broblem mewn un cenhedlaeth yn ddigon i dorri yr arferiad a datrys y broblem tymor hir.
- RS yn son am siop wag yn ganol Bermo lle mae amryw o grwpiau yn hysbysebu, posibilrwydd o hybu y SAC a digwyddiadau eraill yma. ***Gweithred: RS i basio manylion y grwpiau lleol i DJ.*** Hefyd Ysgol Bermo efo melin wynt a llawer o ddiddordeb yn y prosiect gan y rhieni felly posibilrwydd o weithio gyda'r ysgol ar brosiectau.
- CR yn nodi fod pob Cyngor yng Ngwynedd yn boenus am y broblem o faw cwn. Perygl i iechyd a gwneud y lle yn fler. Buniau pwrpasol yn aml ddim yn cael eu gwagio a pobl yn gadael y bagiau yn bob man.

5 Cyflwyniadau

Croesawodd Caerwyn Roberts Nia Jones a Paul Kay

5.1 Prosiect Theatr y Gwyllt – Aberdaron. – Nia Jones, North Wales Wildlife Trust

- Cyflwyniad gan Nia Jones ar gynllun ‘Theatr y Gwyllt’ sydd yn rhan o brosiect mwy ‘Darganfod Gwynedd.’ Prosiect yw hwn sy’n annog pobl i fynd allan a mwynhau a dysgu am yr amgylchedd yma yng Ngwynedd. Mae 3 ‘theatr’ wedi ei dewis sef Cwm Idwal, Gwaith Powdwr Penrhyndeudreaeth a Uwchmynydd Aberdaron. Bydd nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal i lawnsio a hyrwyddo y ‘theatrau’ hyn dros haf 2010 a bydd rhwydwaith o ganolfannau gwybodaeth yn cael eu sefydlu trwy’r sir. Bydd y cynllun yn creu un prif adnodd yn Uwchmynydd sef sgrin gyfrifiadurol lle gall y cyhoedd edrych a chrwydro o dan y tonnau gan ddysgu am yr holl fywyd gwyllt sy’n byw yn y mor ger arfordir Pen Llyn. Mae pwyslais theatr Uwchmynydd ar fywyd morol, a mae NJ yn gweithio gyda DJ er mwyn sicrhau fod ACA PLAS yn cael y mwyaf o sylw a chyhoeddusrwydd a phosibl.
- Materion yn codi:
 - DR yn holi a fydd y canolfannau gwybodaeth yn cael eu staffio? NJ yn egluro bydd y canolfannau yn cael eu lleoli mewn busnesau/canolfannau presennol ac y bydd y rhain yn gyfrifol am gynnal y canolfannau gwybodaeth.
 - RS yn nodi fod y cwt gwylwyr y glannau yn uwchmynydd yn lle rhyfedd i leoli y prosiect gan ei fod allan o’r ffordd. NJ yn egluro y bydd rhan o’r prosiect sef y sgrin gyfrifiadurol yn cael ei leoli fwy na thebyg yng nghanol pentref Aberdaron, ac mai y syniad tu ol defnyddio cwt gwylwyr y glannau yw i ddenu pobol allan o’r pentref i werthfawrogi natur, bywyd gwyllt a golygfeydd anhygoel Uwchmynydd.
 - RS yn holi os fydd y model cyfrifiadurol ar gael i’w ddefnyddio ar ol i’r cynllun gwreiddiol ddirwyn i ben. NJ yn egluro fod y system wedi ei chynllunio fel y gellir ychwanegu at y rhaglen wreiddiol yn y dyfodol. Hefyd bydd y sgrin yn gallu cael ei symud o gwmpas i’w defnyddio mewn sioeau, arddangosfeydd, ysgolion, etc. DJ yn dweud y byddai gadael i amryw o bartneriaid ddefnyddio yr adnodd yn helpu sicrhau ei fod yn cael ei gynnal ai gadw ar ol i’r cynllun gwreiddiol ddod i ben.
 - VP yn gofyn os bydd Gwynedd yn fodlon rhannu y syniad gyda siroedd eraill. NJ yn dweud bod dim rheswm o gwbl na all siroedd eraill ddynwared y prosiect yma.

5.2 Cyflwyno Llyfr ‘A Guide to the Marine Fishes of Wales’ – Paul Kay

- Cyflwyniad gan Paul Kay, cyd-awdur y llyfr ‘A Guide to the Marine Fishes of Wales’. Cafwyd sgwrs ddiddorol am rai o’r gwahanol bysgod sydd yn byw yn ACA PLAS ac ar arfordir Cymru yn gyffredinol.
- Materion yn codi:
 - RS yn holi am y gwahaniaeth a geir yn lliw pysgod byw a rhai marw, ac os oes posibil dweud os ydy pysgodyn yn ‘stressed’ wrth gael ei dynnu allan o’r dwr. PK yn egluro nad oes posibil dweud ar hyn o bryd ond mae eu tynnu allan o’r dwr yn achosi ‘stress’. Y tri peth all achosi newid lliw mewn pysgod yw rhyw, marwolaeth a ‘stress’.

6 Unrhyw fater o bryder neu ddiddordeb

- Dim

7 Amser a dyddiad y cyfarfod nesaf

Daeth y cyfarfod i ben wrth i'r Cynghorydd Caerwyn Roberts ddiolch i bawb am ddod a diolch i Paul a Nia am eu cyflwyniadau. Penderfynwyd galw y cyfarfod nesaf yn Plas Tan y Bwlch ar feddi 22ain os yw hyn yn iawn gan weddill y grŵp.